Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Annwyl bawb

Blwyddyn newydd dda! Isod, mae diweddariadau cryno am y tymor hwn ar gyfer pob sector, yn ogystal â diweddariadau ehangach sy'n berthnasol i rai neu bob un ohonoch.

**Addysg bellach**

Byddwn yn arolygu dau goleg yn nhymor y gwanwyn. Rydym wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â Medr am y data cyhoeddiadau ar gyfer y mesurau perfformiad cyson ôl-16. Gohiriwyd y rhain yn sylweddol y llynedd a oedd yn golygu nad oedd y data ar gael tra oeddem ar y safle ar gyfer y naill na'r llall o arolygiadau'r colegau. Fodd bynnag, fe wnaethom ystyried y data yn yr adroddiadau terfynol ar gyfer y naill a'r llall. Eleni, rydym yn gobeithio y byddwn yn cael y data yn gynharach, ond rydym yn gwybod bod Medr wedi wynebu heriau eto i gael ffurflenni data cywir gan ychydig iawn o ddosbarthiadau chweched ysgolion, felly dydyn ni ddim yn siŵr ar hyn o bryd p'un a fydd data'n cael ei gyhoeddi mewn pryd ar gyfer gweithgarwch arolygu ar y safle.

Yn ein hymweliadau arolygwyr cyswllt â cholegau addysg bellach yn nhymor yr hydref, treuliom amser yn trafod defnydd o AI gyda staff a dysgwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad byr yn ddiweddarach y tymor hwn i rannu ein canfyddiadau.

**Prentisiaethau**

Rydym ni bron â cwblhau ein hymweliadau â phob un o'r darparwyr i gefnogi dau adroddiad Mewnwelediad ar: (1) heriau wrth gyflwyno prentisiaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a (2) heriau mewn cyfraddau cwblhau amserol ar draws yr holl brentisiaethau. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar ôl yr etholiad oherwydd cyfyngiadau arnom yn cyhoeddi adroddiadau cenedlaethol yn ystod cyfnod cyn etholiad.

**Gwasanaethau cyfiawnder**

Rydym wedi diweddaru ein harweiniad ar gyfer arolygu carchardai oedolion yn ddiweddar. O ganlyniad i hyn, rydym ni bellach yn diweddaru ein harweiniad ar gyfer arolygu sefydliadau troseddwyr ifanc. Gallwch ddod o hyd i'n holl arweiniad arolygu yma: Inspection guidance search / Chwilio am arweiniad arolygu.

**Sectorau eraill**

Does gen i ddim diweddariadau arwyddocaol y tymor hwn ynghylch **dysgu oedolion yn y gymuned** na **cholegau arbenigol annibynnol**.

**Adroddiadau thematig ac adroddiadau mewnwelediadau**

Y tymor diwethaf, cyhoeddom yr adroddiadau canlynol:

- Medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn dysgu oedolion yn y gymuned
- Y Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn Addysg Bellach
- Gweithredu agweddau ôl-16 ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Y tymor hwn, byddwn yn gwneud y gwaith maes ar gyfer ein hadolygiad o **bresenoldeb a chyfranogiad mewn addysg mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched**. Bydd pob coleg addysg bellach yn cyfrannu at yr adolygiad hwn a dylent eisoes fod wedi derbyn gwybodaeth amdano.

**Prosiect ar y cyd â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Mae'r prosiect hwn yn effeithio ar bob darparwr a ariennir gan Medr. Rydym wedi gweithio gyda QAA a Medr i ddrafftio arweiniad ar y cyd i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Rydym wedi bod yn rhannu cynnydd ar hyn yn ystod ymweliadau cyswllt a phan rydym wedi cael cyfleoedd eraill mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid. Mae'r adborth rydych yn ei ddarparu yn helpu ffurfio drafft terfynol yr arweiniad hwn.

**Barod yn Barod!** Ready Already! (post-16) / Barod yn Barod! (ôl-16)

Rydym yn dod â'n grŵp rhanddeiliaid yn ôl at ei gilydd y tymor hwn, a gefnogodd ddatblygiad ein hymgyrch 'Barod yn Barod!' i fyfyrio ar yr effaith y mae'n ei chael a thrafod unrhyw gamau pellach y gallwn eu cymryd i gefnogi pawb sy'n gweithio mewn darparwyr ôl-16.

Os byddwch yn cael gwybod am arolygiad eleni, cofiwch ystyried a rhannu'r adnoddau ar ein tudalen we ymgyrch Barod yn Barod! gyda'ch staff. Nod yr ymgyrch hon yw cynnig eglurder ar ddisgwyliadau a rhannu manylion am drefniadau ymarferol i gynorthwyo athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr, aseswyr ac uwch arweinwyr yn y sector ôl-16. Dydyn ni ddim eisiau i arolygu fod yn rhy feichus ond yn brofiad cadarnhaol sy'n rhan naturiol o'ch proses wella arferol.

**Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO)**

Rydym yn gwneud gwaith y tymor hwn i gefnogi Grŵp Cynghori Arbenigol Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon AHO. Rydym yn cynnal adolygiad cymharol yn edrych ar y cwricwla ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon AHO sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y pum Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a'u partneriaid colegau Addysg Bellach (AB). Rydym ni'n gweithio gydag is-grŵp cwricwlwm y panel arbenigol a fforwm AHO USCET ar gyfer arweinwyr cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon AHO. Byddwn yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y tymor.

**Ffocws estynedig ar ddarllen**

Ym mis Tachwedd, cyhoeddom ein bwriad i gael ffocws estynedig ar ddarllen am 3 blynedd o fis Medi 2026 ar draws pob sector. Byddwn yn gweithio gyda chi i archwilio beth mae hyn yn ei olygu, gan fod cyd-destunau darparwyr a phroffiliau dysgwyr yn amrywio'n fawr iawn. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ein gwaith cenedlaethol ar ddarllen yma:

Reading: For learners, for Wales / Darllen: Dros ddysgwyr, dros Gymru

**Arolygwyr cymheiriaid**

Bydd hyfforddiant diweddaru sector blynyddol ar gyfer prentisiaethau yn cael ei gynnal ar 29 Ionawr. Mae arolygwyr cymheiriaid cymwys wedi cael gwahoddiad i gofrestru. Bydd y digwyddiad hanner diwrnod yn cael ei gyflwyno ar-lein.

Roeddem yn bwriadu cynnal hyfforddiant diweddaru'r tymor hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, ond bydd hyn bellach yn cael ei gynnal yn yr haf.

**Sgwrs – cyfres podlediadau Estyn**

Yng nghyfres podlediadau Estyn, Sgwrs, rydym yn archwilio pynciau allweddol sy'n ffurfio addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Trwy drafodaethau craff ag arbenigwyr, addysgwyr a dysgwyr, rydym yn rhannu syniadau, profiadau ac arfer orau i gefnogi gwelliant ar draws y sector. Gallwch fynd at yr holl benodau ar ein gwefan, ein sianel YouTube, podlediadau Spotify neu Apple. Podlediadau - Estyn

**Digwyddiadau byw Estyn**

Rydym yn cynnal gweminarau Estyn yn Fyw bob mis trwy gydol y flwyddyn ac yn annog darparwyr i gofrestru a manteisio ar y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Gellir dod o hyd i'r amserlen lawn ar gyfer 2025/26 yn: Digwyddiadau Estyn yn Fyw ar gyfer 2025/26.

**Newidiadau i rolau arwain yn Estyn**

Fel rhan o newid i rolau arwain ar gyfer AEF ar draws Estyn, mae'r newidiadau canlynol yn dod i rym o fis Ionawr 2026:

| Rôl | Swyddog arweiniol blaenorol | Swyddog arweiniol o fis Ionawr |
|---|---|---|
| Colegau addysg bellach | Ian Dickson | Janine Bennett |
| Prentisiaethau dysgu yn y gwaith | Mark Evans | Matt Williams |

| | | |
|---|---|---|
| Dysgu oedolion yn y gymuned | Steve Bell | Steve Bell (dim newid) |
| Colegau arbenigol annibynnol | Rachel Hackling | Jennifer Weeks |
| Gwasanaethau cyfiawnder | Mamta Arnott | Rachel Hackling |
| Polisi 16-19 | Dd/b | Ian Dickson |
| ADY ôl-16 | Rachel Hackling | Kirsten Jones |

Gan fy mod i newydd orffen fy mlwyddyn gyntaf fel y Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy’n gyfrifol am arolygiadau ôl-16, rwy’n mynd i newid rolau oherwydd anghenion busnes yn ein huwch dîm. O 1 Mawrth, byddaf yn arwain ein gwaith gyda gwasanaethau addysg llywodraeth leol, a bydd Mererid Wyn Williams yn arwain ein gwaith ôl-16. Efallai y byddwn yn gorgyffwrdd o ran rhywfaint o’n gwaith yn ystod y tymor hwn i gefnogi cyfnod pontio esmwyth.

Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi, a gobeithio y byddaf yn parhau i gefnogi gwelliannau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 o safbwynt awdurdodau lleol.

Rwy’n dymuno pob llwyddiant i chi yn eich gwaith eleni – dros ddysgwyr, dros Gymru.

Yn gywir



Mark Campion

Cyfarwyddwr Cynorthwyol